EISTEDDFOD 2025

# 158. UNAWD CERDD DANT 16 AC O DAN 21 OED

## YN GENEDL DRACHEFN

*(Addasiad o'r gân Wyddelig 'A Nation Once Again')*

Mi glywais i yn blentyn bach
am wrthryfelwyr dewrion
a heriodd ormes, trais a brad
a dichell gwledydd mawrion,
a thyngais yn y fan a'r lle
y gwelwn i ryw ddydd,
ein cadwyn wedi'i thorri'n llwyr
a Chymru'n Gymru rydd.

A byth ers hynny, drwy bob gwae,
bu'r gobaith hwn yn gliriach;
ac ni all llewyrch hafaidd serch
dywynnu yn ddisgleiriach.
Fe wyliodd wastad uwch fy mhen
mewn fforwm, ffos a ffridd,
a'i lais angylaidd ddydd a nos
yn addo Cymru rydd!

Sibrydodd nad oedd gobaith gwlad
a'i thynged ddyrchafedig
i'w llygru gan amcanion cas
na thrachwant gwael sathredig.
Daw rhyddid o ddeheulaw Duw
a rhaid yw cadw ffydd,
a chyfiawn fydd y rhai sy'n gwneud
ein Cymru'n Gymru rydd!

Ac wrth i minnau dyfu'n hŷn,
bûm ufudd i'r gorchymyn,
gan wrthod hunanoldeb gwan
a phob rhyw reddf esgymun,
gan fyw i weld yn agosáu
yr hyfryd awr pan fydd
ein gwlad yn genedl drachefn
a Chymru'n Gymru rydd!

GRAHAME DAVIES